**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 25 Gorffennaf 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y dangosyddion perfformiad a ddefnyddir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. |

1. **CEFNDIR**

1.1 Lluniwyd yr adroddiad hwn i'r roi gwybodaeth am berfformiad i Aelodau Panel Gweithredol yr Awdurdod. Mae'n dilyn penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ym Mehefin 2005 i ddiddymu'r Pwyllgor Gwerth Gorau a throsglwyddo ei swyddogaethau i Banel Gweithredol yr Awdurdod.

1.2 Cafodd y Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr eu nodi yng Ngorchymyn Statudol 2005 Rhif 598 ym Mawrth 2005, ar yr un adeg ag y cafodd Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer yr awdurdodau Llywodraeth Leol yng Nghymru eu nodi yng Ngorchymyn Statudol Cymru 2005 Rhif 665.

1.3 Nid oedd y naill na'r llall o'r offerynnau statudol hyn yn berthnasol i'r Awdurdodau Tân ac Achub yn Nghymru. Felly, penderfynwyd y byddai'r dangosyddion a nodwyd ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr yn cael eu defnyddio ar sail wirfoddol, yn 2005-06 gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gan aros trefniadau eraill o Ebrill 2006 ymlaen.

2. **CYFLWYNIAD**

2.1 Mae'r dangosyddion a osodwyd ar gyfer 2005-06 yn cynnwys 10 dangosydd iechyd corfforaethol, wedi eu rhannu yn 19 o ddangosyddion gwahanol; a 10 dangosydd yn ymwneud yn benodol â thân, wedi eu rhannu'n 21 o ddangosyddion gwahanol.

2.2 O blith y gyfres o 40 o ddangosyddion, mae 19 ohonynt naill ai'n hollol newydd ar gyfer 2005-06, neu wedi cael diwygio'n sylweddol ers 2004-05.

2.3 Gan fod rhai dangosyddion yn haws eu monitro'n rheolaidd, efallai na fydd rhai adroddiadau monitro o fewn y flwyddyn yn cynnwys y gyfres lawn o 40 dangosydd, neu efallai na fydd yr wybodaeth bob amser mor gyfredol. Er enghraifft, gellid monitro'r dangosyddion sy'n ymwneud â nifer y tanau yn ddyddiol, ond fe fyddai'n afrealistig ceisio monitro'n fanwl-gywir mor aml â hyn y dangosyddion sy'n ymwneud â chost y pen o'r boblogaeth neu lefelau absenoldeb salwch y staff.

2. **CYFLWYNIAD (parhad)**

2.4 Mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) yn cyhoeddi adroddiadau arferol yn cymharu perfformiad yr awdurdodau tân ac achub dros amser ledled gwledydd Prydain. Mae rhai yn ymwneud yn benodol â dangosyddion gwerth gorau ac felly'n cael eu cyhoeddi am flynyddoedd ariannol. Mae rhai eraill yn ymwneud ag ystod ehangach o ddangosyddion, ac fe'i cyhoeddir fel arfer am flynyddoedd calendr.

2.5 Yn ogystal â dangos perfformiad awdurdodau tân ac achub unigol, mae'r dangosyddion yn cael eu cyflwyno ar wahân ar gyfer pum grŵp cymharu, neu 'grwpiau teulu'. Mae Gogledd Cymru yn aelod o Grŵp Teulu 3, gyda Chanolbarth a Gorllewin Cymru, Dyfnaint, Swydd Henffordd a Chaerwrangon, Swydd Lincoln, Swydd Gogledd Efrog a Cumbria. Mae Awdurdod Tân De Cymru yn aelod o Grŵp Teulu 4.

3. **PERFFORMIAD**

3.1 **Adroddiadau a datganiadau diweddar ar ystadegau cenedlaethol**

Ym Mehefin 2005, cyhoeddwyd dau adroddiad blynyddol rheolaidd gan yr ODPM ar berfformiad ym meysydd y gwasanaeth tân ac achub ym Mhrydain:

a) DPGG 2003-04
b) Monitro Ystadegau Tân 2004

Tynnir sylw at y pwyntiau allweddol ar gyfer Gogledd Cymru mewn cyflwyniad yn y cyfarfod.

3.2 **Perfformiad Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru 2004-05, a'r Targedau ar gyfer 2005-06**

Mae gwybodaeth am y tro am berfformiad ar gyfer y llynedd, a'r targedau ar gyfer eleni yn Atodiad 1.

3.3 **Perfformiad Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru 2005-06**

Bydd adroddiadau perfformiad chwarterol am y tro ar gyfer y Panel Gweithredol yn cael eu darparu trwy gydol y flwyddyn fel y byddant ar gael.

4 **ARGYMHELLIAD**

4.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

**ATODIAD 1**

## GWYBODAETH AM DDANGOSYDDION PERFFORMIAD GWERTH GORAU AM Y TRO AM 2004-05 A THARGEDAU AR GYFER 2005-06

| BVPI | | Diffiniad | Targed 2005-06 | Am y tro 2004-05 | Targed 2004-05 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **DANGOSYDDION CORFFORAETHOL** | | | |
| 2a | | Lefel safon (os oes un) y Safon Cydraddoldeb ar gyfer llywodraeth leol y mae'r awdurdod yn cydymffurfio ag o | Lefel 3 | Lefel 1 | Lefel 2 |
| 2b | | Y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol – ansawdd Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Awdurdod a'r gwelliannau sy'n arwain o'i roi ar waith | 89% | 74% | 72% |
| 3 | | Canran y dinasyddion sy'n fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir gan eu hawdurdod yn gyffredinol (y nesaf i fod i ddod allan yn 2006/07) | Amh. | Amh. | Amh. |
| 8 | | Canran yr anfonebau diddadl am nwyddau a gwasanaethau masnachol a delir o fewn 30 niwrnod o dderbyn anfonebau o'r fath | 95% | 92.6% | 92% |
| 11a | | Canran y 5% uchaf o enillwyr cyflog sy'n ferched | O leiaf 1 person (tua 4.8%) | ◈ | 4.8% |
| 11b | | Canran y 5% uchaf o enillwyr cyflog sydd o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig | O leiaf 1 person (tua 4.8%) | ◈ | 4.8% |
| 11c | ⌘ | Canran y 5% uchaf o enillwyr cyflog sy'n anabl | O leiaf 1 person (tua 4.8%) | Amh. | Amh. |
| 12i | | Diwrnodiau/shifftiau gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul pob aelod lifrai llawn amser (gan gynnwys yr ystafell reoli) | 6.5 | 12.4 | 6.5 |
| 12ii | | Diwrnodiau/shifftiau gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul pob aelod o'r staff (yr holl staff) | 6.5 | 12.2 | 6.5 |
| 15i | | Canran y gweithwyr sy'n gymwys i ymaelodi â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân sy'n ymddeol ar sail afiechyd | Uchafswm o 3 pherson (tua 1%) | ◈ | 1% |
| 15ii | | Canran y gweithwyr sy'n gymwys i ymaelodi â chynllun pensiwn llywodraeth leol sy'n ymddeol ar sail afiechyd | Uchafswm o 1 person (tua 1%) | ◈ | 1% |
| 16a(i) | ⌘ | Canran y staff lifrai system ddyletswydd llawn amser a rhan amser sy'n anabl | Cynnal awdit i bennu'r nifer sy'n eu hystyried eu hunain yn anabl | Amh. | Amh. |
| 16a(ii) | ⌘ | Canran staff yr ystafell reoli a di-lifrai sy'n anabl | Fel 16a(i) | Amh. | Amh. |
| 16b | ⌘ | Canran y boblogaeth economaidd weithgar yn ardal yr awdurdod sy'n anabl | Amh. | Amh. | Amh. |

| BVPI | | Diffiniad | Targed 2005-06 | Am y tro 2004-05 | Targed 2004-05 |
|---|---|---|---|---|---|
| 17a | | Canran y staff lifrai llawn amser, y system dyletswydd rhan amser a'r ystafell reoli sydd o gefndir lleiafrifol ethnig | 0.7% | ◈ | 0.7% |
| 17b | | Canran y boblogaeth economaidd weithgar (pobl 18-54 oed) sydd o gymunedau lleiafrifol ethnig yn ardal y gwasanaeth tân ac achub | Amh. | Llai na 1.0% | Amh. |
| 210 | ⌘ | Canran y diffoddwyr tân sy'n ddiffoddwragedd | O leiaf 25 o bobl | Amh. | Amh. |
| 157 | | Nifer y mathau o ddeliadau rhwng dinasyddion a'r awdurdod a wneir yn electronig fel % o'r mathau o ddeliadau sy'n bosib yn gyfreithiol yn electronig | 75% | 60% | 75% |
| | **DANGOSYDDION SY'N BENODOL I'R GWASANAETH** | | | | |
| 142i | | Cyfanswm y galwadau at dân (ac eithrio galwadau diangen) fesul 10,000 o boblogaeth | Daeth i ben | (4414 o danau) 65.8 | (5000 o danau) 74.5 |
| 142ii | | Prif danau fesul 10,000 o boblogaeth | (1800 o danau) 26.8 | (1827 o danau) 27.2 | (1875 o danau) 28.0 |
| 142iii | | Tanau damweiniol mewn cartrefi fesul 10,000 o gartrefi | (490 o danau) 16.5 | (502 o danau) 16.9 | (505 o danau) 17.0 |
| 143i | | Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi fesul 100,000 o boblogaeth | (4 o bobl) 0.60 | (3 o bobl) 0.45 | (4 o bobl) 0.60 |
| 143ii | | Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi fesul 100,000 o boblogaeth | (67 o bobl) 10.0 | (116 o bobl) 17.3 | (67 o bobl) 10.0 |
| 144 | | Canran y tanau damweiniol mewn cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd | 93.6% | 91.3% | 93.6% |
| 146i | ⌘ | Nifer y galwadau ffug maleisus <u>nad</u> aethpwyd atynt fesul 1,000 o boblogaeth | 1.0 | Amh. | Amh. |
| 146ii | ⌘ | Nifer y galwadau ffug maleisus yr aethpwyd atynt fesul 1,000 o bobl (yr un fath â'r hen BV146) | (250 o alwadau diangen) 0.4 | (271 o alwadau diangen) 0.4 | (265 o alwadau diangen) 0.4 |
| 149 | | Galwadau diangen oherwydd systemau larwm tân (ym mhob eiddo) fesul 1,000 o eiddo annomestig | Daeth i ben | (2883 o alwadau diangen) 109.2 | (2790 o alwadau diangen) 105.7 |
| 149i | ⌘ | Galwadau diangen oherwydd systemau larwm tân (eiddo annomestig yn unig), fesul 1,000 o eiddo annomestig | ⦿ | Amh. | Amh. |
| 149ii | ⌘ | Nifer yr eiddo rheini lle'r aethpwyd atynt fwy nag 1 waith | ⦿ | Amh. | Amh. |
| 149iii | ⌘ | Canran y galwadau at eiddo lle'r aethpwyd atynt fwy nag I waith | ⦿ | Amh. | Amh. |
| 206 | | Prif danau bwriadol fesul 10,000 o boblogaeth | Daeth i ben | (690 o danau) 10.3 | (874 o danau) 13.0 |
| 206i | ⌘ | Prif danau bwriadol (ac eithrio prif danau mewn cerbydau) fesul 10,000 o boblogaeth | (250 o danau) 3.7 | Amh. | Amh. |
| 206ii | ⌘ | Prif danau bwriadol mewn cerbydau fesul 10,000 o boblogaeth | (403 o danau) 6.0 | Amh. | Amh. |

| BVPI | | Diffiniad | Targed 2005-06 | Am y tro 2004-05 | Targed 2004-05 |
|---|---|---|---|---|---|
| 206iii | ⌘ | Tanau eilaidd bwriadol (ac eithrio tanau eilaidd bwriadol mewn cerbydau) fesul 10,000 o bobl | (2500 o danau) 37.3 | Amh. | Amh. |
| 206iv | ⌘ | Tanau eilaidd bwriadol mewn cerbydau fesul 10,000 o boblogaeth | (30 o danau) 0.45 | Amh. | Amh. |
| 207 | ⌘ | Tanau mewn eiddo annomestig fesul 1,000 o eiddo annomestig | 396 (o danau) 15.0 | Amh. | Amh. |
| 208 | ⌘ | Canran y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a ddihangodd heb niwed heb gymorth y gwasanaeth tân ac achub yn y tân | ⦿ | Amh. | Amh. |
| 209i | ⌘ | Canran y tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi (pob achos) lle canodd larwm mwg | 45% | Amh. | Amh. |
| 209ii | ⌘ | Canran y tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi (pob achos) lle roedd larwm mwg yno ond lle na chanodd | 20% | Amh. | Amh. |
| 209iii | ⌘ | Canran y tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi (pob achos) lle nad oedd larwm mwg | 35% | Amh. | Amh. |
| 150 | | Gwariant y pen o'r boblogaeth | (£27,951,864) £41.67 | (£27,951,864) £41.67 | £39.95 |

⌘ yn dynodi bod hwn yn ddangosydd newydd neu'n un wedi newid yn fawr ar gyfer 2005-06.
◈ yn dynodi bod yr wybodaeth hon yn dal wrthi'n cael ei chasglu.
Amh. yn dynodi nad yw/oedd y dangosydd yn berthnasol
⦿ yn dynodi bod targedau addas yn dal wrthi'n cael eu pennu ar gyfer y dangosyddion hyn yn eu blwyddyn gyntaf.

| |
|---|
| Eiddo domestig - 296,971<br>Eiddo annomestig - 26,393<br>Y boblogaeth - 670,800 |